Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **10 Rhagfyr 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-12/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees

Clerc – Dr Catrin Jones.

Nodwyd gyda thristwch mawr farwolaeth y Cyng. Dr Tudor Jones. Yn ychwanegol at ei waith meddygol ymroddedig roedd yn aelod blaenllaw o'r Cyngor Tref am gyfnod o 40 mlynedd ac mi wnaeth wasanaeth rhyfeddol i'r gymuned mewn sawl ffordd. Mae'n golled fawr i Criccieth. Safodd pawb am funud o dawelwch i gofio amdano.

2-12/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Robert T Price; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes; Cyng. Sian Williams

Roedd nifer o ymddiheuriadau wedi eu derbyn a nodwyd bod angen ceisio gwella presenoldeb mewn cyfarfodydd.

3-12/19: Datgan diddordeb
Cyng. Robert Cadwlader ar gyfer eitem 7-12/19: Ceisiadau Cynllunio b. C18/0698/35/LL

4-12/19 Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-12/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-12/19: Gohebiaeth

a. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Gorchymyn Cydgrynhoi 2007) Gorchymyn Amrywio (Ardal Dwyfor Rhif 2) 2019 - e-bost 18 Tachwedd 2019

   Dim aros ar unrhyw adeg wedi dod i rym ar 2 Rhagfyr ar y B4411 Ffordd Dosbarth 2 ar ddwy ochr y ffordd ger ei chyffordd a Ty'n Rhos a Waen Helyg

   Penderfyniad:
   Derbyn er gwybodaeth

b. Cais i gefnogi'r Bil Trydan Lleol - e-bost 29 Tachwedd 2019

Cais wedi dod i law i gefnogi'r Bil Trydan a oedd wedi ei gylchredeg

Penderfyniad:
Dim cefnogi ar hyn o bryd ond cadw llygaid ar ddatblygiadau.

c. Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Siawns i Ddweud eich Dweud am Blismona - e-bost 2 Rhagfyr 2019

Manylion wedi ei gylchredeg ac wedi ei rhoi ar safle We'r Cyngor Tref.

Penderfyniad:
Cynghorwyr i ddanfon sylwadau i mewn os dymunant.

7-**12/19: Ceisiadau Cynllunio**

a. C19/1100/35/CC Cais ar gyfer gwneud gwaith ar goed wedi eu gwarchod gan Orchymyn Gwarchod Coed - Tŷ Clap, Lôn Fêl, Criccieth, Gwynedd, LL52 0LL

Penderfyniad:
Danfon sylwadau i sicrhau bod y gwaith ar y coed yn cadw at argymhellion yr adroddiad.

b. C18/0698/35/LL Cais i estynni'r adeilad cartref nyrsio a maes parcio ynghyd a chadarnhau lleoliad presennol uned biomas - Cartref Preswyl Y Pines, Rhesdau Mona, Criccieth, LL52 0DE
Penderfyniad: Gwrthwynebu'r cais oherwydd gor-ddatblygiad o'r safle ac na fyddai chyfleusterau'r Ganolfan Iechyd Lleol yn medru ymdopi. Roedd y Cyngor eisoes wedi gwrthwynebu'r cais yn Hydref 2018 gan nodi bryd hynny bod gwrthwynebiad cryf yn lleol i'r cais hwn a bod llythyr wedi eu derbyn gan y Cadeirydd a'r Clerc a hefyd bod nifer o unigolion yn bresennol y cyfarfod hynny i fynegi eu gwrthwynebiad.

8-12/19: Llenwi seddau gwag y Cyngor Tref

Nodwyd bod dwy sedd wag bellach ar y Cyngor Tref. Yn drist iawn roedd un sedd wag yn dilyn marwolaeth y Cyng., Dr Tudor Jones. Roedd ymddiswyddiad y Cyng. William Evans wedi dod i law drwy lythyr a oedd yn nodi ei fod wedi bod yn fraint ac yn bleser i wasanaethau fel cynghorydd tref am dros ugain mlynedd. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda swyddog Cyngor Gwynedd er mwyn dilyn y broses briodol ar gyfer llenwi'r seddau gwag.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth a diolch i'r Cyng. William Evans am ei wasanaeth ar y Cyngor Tref.

9-12/19: Cyfrif Banc y Cyngor Tref

Cwyn i'r HSBC - Dal yn aros am ymateb gan yr HSBC

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth.

10-12/19: Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol – cyfarfod 27 Tachwedd 2019

Roedd angen derbyn diweddariad adroddiad cyllid 2019-20 a thrafod argymhellion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd:

1. **6-11/19 Adroddiad Cyllid 2019-20**
   Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad a chytuno y dylid adolygu'r daenlen ar gyfer cynnwys gwybodaeth ar wariant ymrwymedig (Cyng. Dr Ian Rees a'r Clerc).

2. 7-11/19 Cyllideb Drafft 2020-21

Trafodwyd y materion canlynol ar gyfer gosod cyllideb ddrafft 2020-21 gan gynnwys gosod lefel y praesept ar gyfer y flwyddyn honno:

a. Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref

- (i) Roedd yn rhaid i Gynghorau rhoi taliad yn ôl o'r costau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n ddibynnol er mwyn caniatáu aelodau ymgymryd â'i dyletswyddau a hefyd lwfans o £150 yr aelod (does dim rhai i gynghorwyr dderbyn y tal).
  Costau Cynghorwyr - ar gyfer adroddiad lwfansau uchod £150 yr aelod = 12 x £150 = £1800

  (ii) Cronfa Cadeirydd Cyngor Tref Criccieth
  Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhoi- £200 y Flwyddyn i Gronfa'r Cadeirydd a chostau treuliau teithio/parcio. Roedd hawl gan y Cyngor dalu fyny at £500 yr un i hyd at 5 person am swyddogaethau penodedig. Mae hyn yn ogystal â'r £150 ar gyfer costau. Pennwyd lefel taliadau ar gyfer lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau.
  Penderfyniad: i barhau i dalu £200 i gronfa'r Cadeirydd ac i ad-dalu lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau i Gynghorwyr lle mae colled o'r fath wedi ei hysgwyddo mewn gwirionedd o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswydd gymeradwy: Hyd at £55 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr a £111 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr.

b. Costau rhedeg toiledau cyhoeddus Criccieth £6k
Roedd y Cyngor Tref eisoes wedi ymrwymo i dalu'r cyfraniad at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus i Gyngor Gwynedd yn 2020/21.

c. Costau torri gwair £5k
Penderfyniad: i barhau i dalu'r cyfraniad at doriadau gwair ychwanegol i Gyngor Gwynedd

d. Cyllideb ar gyfer cynllun Cymunedol
Roedd y Cyngor wedi neilltuo £29k ar gyfer y Cynllun Cymunedol – roedd yn debygol na fyddai wedi gwario hwn i gyd eleni – felly byddai angen cario swm sydd heb ei wario drosto i 2020/21 ac unrhyw swm ar ben hynny.
Penderfyniad: Derbyn

e. Goleuadau Nadolig
Trafodwyd adroddiad ar gyflwr y colofnau goleuadau Nadolig yn y dref a'r angen i osod colofnau newydd ar gyfer 2020. Roedd costau gosod a thynnu golau 2019 am fod tua £3500. Roedd £5,000 yn gyllideb. Nodwyd bod rhai o'r goleuadau colofnau wedi eu prynu ar gyfer 2007 (9 ohonynt) a 5 yn dyddio o 2013. Roedd y gwneuthurwyr yn disgwyl tua 10 mlynedd o oes i'r goleuadau ond oherwydd lleoliad glan môr y dref mae 7 mlynedd yn fwy tebygol. Ar sail hyn ac oherwydd tan wariant tebygol yn y gyllideb eleni (gan gynnwys cyfieithu, lwfansau cynghorwyr, prosiectau, cyllideb goleuadau Nadolig roedd cyfle i fuddsoddi i brynu 14 golau colofn (ar gost o tua £600 yr un) allan o gyllideb 2019-20 ar gyfer Nadolig 2020.

Penderfyniad:
Y dylid neilltuo tua £8,400 i brynu colofnau golau Nadolig allan o gyllideb 2019-20 a fyddai yn golygu gor wariant yn y gyllideb o £5,000 a osodwyd ar gyfer goleuadau Nadolig. I roi swm o £5,000 ar gyfer 2020-21

f. Gwariant o dan 137(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol sy'n caniatáu gwariant ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch a hefyd at ddibenion elusennol ac eraill yw £8.32 am bob etholwr ar gyfer 2020/21 - ar sail 1278 o etholwyr Criccieth (cyfredol 1 Rhagfyr 2018) golyga hyn £10,632.96.
Penderfyniad - i neilltuo swm o £5k i'r Neuadd Goffa (o dan bŵer S145) ac i ychwanegu £5k ar gyfer cyfraniadau eraill o dan 137(4).

Penderfyniad
I gymeradwyo'r gyllideb ddrafft (gweler atodiad 1). Byddai modd addasu'r gyllideb a chytuno ar gyllideb derfynol ym Mis Mawrth/Ebrill.

g. Roedd angen penderfynu ar y praesept ar gyfer 2020-21. Roedd e-bost wedi dod gan Gyngor Gwynedd ar 21/11 yn gofyn am fanylion erbyn 24 Ionawr 2020 - - Sylfaen Drethiannol Criccieth yw £944.20. Os bwriedir casglu a hawlio praesept o £1,000 byddai hynny yn golygu cost o £1.06 o Dreth Cyngor Band D ar gyfer y gymuned yma (h.y. £1,000/944.20). Felly, am bob £1,000 o gynnydd byddai'n costio tai ym Mand D £1.06 ychwanegol.
Penderfyniad - Ar sail y drafodaeth ar gyfer y gyllideb ddrafft nid oedd aelodau yn gweld achos i godi lefel y praesept yn 2020-21 ac y dylid cadw at y praesept cyfredol o £42,000. Nodi bod ystyriaeth wedi'i gymryd o'r arian wrth gefn oedd gan y Cyngor Tref a bod angen cadw wrth gefn yr arian yn y cyfrif cefn 'Money Manager' fel mater o arfer dda er mwyn medru delio gyda materion brys annisgwyl.

3. 8-11/19 Rheolau Ariannol y Cyngor Tref
Cafwyd ystyriaeth o Reolau diwygiedig i'r Cyngor Tref ar sail model rheolau Cymru 2019 a oedd wedi eu cylchredeg gan Un Llais Cymru. Roedd y newidiadau i'r Rheolau cyfredol wedi eu nodi yn y ddogfen drafft a oedd wedi ei gylchredeg.

Argymhelliad
Eu mabwysiadu

4. 9-11/19 Bioamrywiaeth – cynllun drafft y Cyngor Tref
Cynllun wedi ei gylchredeg

Argymhelliad
Ei fabwysiadu

5. 10-11/19 Diwrnod VE 8 Mai 2020 – cynllun drafft gweithgareddau cymunedol
Roedd y Cyngor Tref wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda'r Neuadd Goffa - Drafft manylion prosiect a'r costau wedi ei gylchredeg fel prosiect yn rhan o'n Cynllun Cymunedol. Byddai hyn yn cynnwys gwaith gweu/ffeltio cymunedol, sesiynau yn Ysgol Treferthyr gan Ffion Gwyn ac arddangosfa yn y Neuadd Goffa i'w arwain gan y Cyng. Robert Cadwalader, Ffion Gwyn a'r Clerc. Byddai pwyslais y prosiect ar heddwch. Roedd arian ar gael yn y gyllideb a modd i'r Cyngor Tref wneud hyn drwy ddefnyddio pŵer S145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n cynnwys datblygu a gwella gwybodaeth, ddeallusrwydd o'r celfyddydau ac ymarferion a hefyd arddangosfeydd a hefyd bwydydd/diodydd yn y cyd-destun.

Penderfyniad
Bod y Cyngor Tref yn cyfrannu swm o £1360 ar gyfer y prosiect drwy ddefnyddio pŵer S145.

11-12/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Strydoedd Unigryw
Nodwyd llwyddiant Croeso Dolig 28 Tachwedd a dadorchuddio murlun y prosiect o waith plant - peintiadau siopau Criccieth. Yn anffodus ers y noson roedd trafferth wedi codi oherwydd bod rhywun wedi bod yn ymhél gyda goleuadau Nadolig ar y Maes. Piti gorfod cofnodi ymddygiad anghymdeithasol sy'n sbwylio naws ac ysbryd cymunedol y dref a oedd mor amlwg noson Croeso Dolig. Roedd y mater wedi ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru - a'r trydanwr wedi sortio cloeon newydd.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad

b. Jet sgis
Roedd y Clerc wedi sgwennu yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad a'u cynlluniau ar gyfer y tymor nesaf.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad

c. Tai Fforddiadwy
Aros am adroddiad

d. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell –
Adroddiad drafft wedi ei gylchredeg

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth ac aros am yr adroddiad terfynol

e. Cais am gyllideb i'r Loteri
Cadarnhawyd bod y Clerc wedi cyflwyno cais i'r Loteri ar gyfer cynnal Gŵyl Gymunedol i'r teulu oll yn Neuadd Goffa Criccieth ym Mis Medi 2020 er mwyn cefnogi'r Cynllun Cymunedol. Byddai holl gymdeithasau'r dref yn cael gwahoddiad i ddod ynghyd i ddangos eu gweithgareddau a rhoi siawns i ddenu aelodau newydd iddynt i hybu eu cynaladwyedd ac i ymgysylltu'r cenedlaethau yn y dref. Cynnal gweithdy amgylcheddol artistig cymunedol yn Ystafell Werdd y Neuadd. Byddai stondinau'r cymdeithasau ym mhrif ofod y Neuadd. Deheuad y diwrnod byddai i annog trigolion o bob oed a haen o gymdeithas i fedru cydio mewn diddordeb, hobi, gwirfoddoli neu weithgaredd creadigol o'r newydd a drwy'r gweithdy rhoi cyfle i bobol gysylltu, trafod, a chydweithio, i ddysgu sgiliau newydd.

Penderfyniad
Derbyn yr adroddiad

12-12/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Y Clerc wedi sgwennu at y cyfreithiwr gyda phenderfyniad y Cyngor Tref.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

13-12/19 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Aros am adroddiad nôl gan Gyngor Gwynedd.

14-12/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Dim byd i'w adrodd

15-12/19 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Dim byd i'w adrodd

16-12/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-12/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

18-12/19 Meinciau Tref Criccieth

Penderfyniad
I drafod prisiau ar gyfer gosod meinciau newydd yn y dref yn y cyfarfod nesaf.

19-12/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11
Roedd y Clerc wedi ysgrifennu eto at y Swyddog Cyngor Gwynedd. – aros am ymateb.

Penderfyniad:.
Derbyn y wybodaeth

20-12/19 Lwfans y Cadeirydd 2019-20
Ar ddymuniad y Cadeirydd gofynnwyd am ganiatâd y Cyngor i dalu lwfans y Cadeirydd(£200) y mis yma yn uniongyrchol i achosion da o'i ddewis.

Penderfyniad:
I dalu £100 yr un i'r canlynol:
Cylch Meithrin Criccieth
Cyfeilion Ysgol Treferthyr

21-12/19 Derbyniadau
Dim

22-12/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09(siec 101368)
- Cyflog y Clerc (Tachwedd) £755.66 (siec 101369)
- Costau Clerc (Swyddfa) £289.28 (siec 101370)
- Swyddfa Archwilio Cymru £252.70 (siec 101371)
- Cyngor Gwynedd £6020.27 (siec 101372)*
- R.J. Electrics £3153.30(siec 101373)*
- Cylch Meithrin Criccieth £100.00(siec 101374)**
- Cyfeillion Ysgol Treferthyr £100.00 (siec 101375)**

*Cywiriad i'r rhifau siec o'r rhai gyhoeddwyd ar yr agenda

**Ychwanegu taliad i'r achosion da o lwfans y Cadeirydd (gweler 20-12/19)

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

23-12/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 14 Ionawr 2020**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **6 Ionawr 2020**

Atodiad 1 Drafft Cyllideb 2020/2021

Incwm	
Praesept	£42,000
Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn)	£29,660
Cyfanswm	**£71,660**
Gwariant	
Cyflog	£9,800
Cyfieithu	£1,000
Yswiriant	£1,800
Cynnal llwybrau	£600
Torri Gwair	£5,000
Rhent stafell	£1,000
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£100
Aelodaeth	£400
Cyfrifon (archwilio)	….£700

Cyrsiau	….£700
Nadolig	£5,000
Sul y Cofio	……£25
Deddf data	……£35
Costau Clerc swyddfa	…..£850
Costau Clerc teithio	…..£300
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£3,000
Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Cyfraniadau eraill	£5,000
Prosiectau	£25,000
CYFANSWM CYLLIDEB	**£71,660**